Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
24/2018
Dyddiad cyhoeddi:
Ebrill 26, 2018

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Cam 1, Ebrill 2018

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol 978-1-78937-150-5

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 1, Ebrill 2018

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, robert.lewis@llyw.cymru
Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth
Canolfan QED
Ystad Trefforest
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR
Ffôn: 0300 061 6026

ISBN: 978-1-78937-150-5
Ebrill 26, 2018
© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**


1. PRIF GANFYDDIADAU....2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL....3
3. CEFNDIR A METHODOLEG....6
4. PERFFORMIAD DROS Y PASG....8
5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR....12
6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR....14
7. PROFFIDIOLDEB....16
8. EFFAITH BREXIT....19
9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER 2018....24

# 1. PRIF GANFYDDIADAU

**Tywydd gwael yn effeithio ar berfformiad yn ystod y Pasg**

1.1 Mae'r Pasg 2018 wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae rhai (18%) gweithredwyr wedi cael mwy o ymwelwyr na'r llynedd, ac mae oddeutu dau o bob pump (42%) wedi cael yr un lefel o ymwelwyr. Fodd bynnag, gwnaeth dau o bob pump (40%) o weithredwyr nodi bod eu lefelau wedi disgyn.

1.2 Mae'r rhan fwyaf (69%) o weithredwyr sy'n dweud bod eu lefelau wedi disgyn yn nodi'r tywydd fel rheswm. Dyma'r rheswm amlaf a grybwyllir ym mhob sector a rhanbarth.

1.3 Atyniadau a darparwyr gweithgareddau sydd wedi perfformio orau ym mhob sector – a gynorthwyir yn bennaf oherwydd bod llawer o atyniadau yn cynnig rhywbeth dan do. Mae tua thraean (31%) o atyniadau / darparwyr gweithgareddau wedi llwyddo i gynyddu eu lefelau o ymwelwyr dros y Pasg hwn.

1.4 Mae pedwar rhanbarth Cymru wedi profi dirywiad mewn twristiaeth dros y Pasg o'i gymharu â'r llynedd.

**Rhagolygon cadarnhaol am weddill y flwyddyn fodd bynnag**

1.5 Er gwaethaf cyfnod siomedig dros y Pasg a dechrau anodd i'r flwyddyn, ar y cyfan, mae llawer o weithredwyr yn gadarnhaol ynglŷn â gweddill y flwyddyn. Mae tua chwarter (23%) yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn' am weddill y flwyddyn, ac mae dros hanner (55%) yn dweud eu bod yn 'eithaf hyderus'.

1.6 Adlewyrchir y lefel uchel hon o hyder wrth edrych tua'r dyfodol ar draws pob sector a rhanbarth.

# 2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

2.1 Rydym wedi cynnal cyfweliadau manwl dros y ffôn ag unigolion allweddol ym maes twristiaeth ar draws sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

**Tywydd gwael yn achosi dechrau gwael i'r flwyddyn**

2.2 Mae arweinwyr yn y diwydiant yn dweud eu bod wedi derbyn galwadau gan aelodau i ddweud pa mor wael y mae'r flwyddyn wedi bod hyd yn hyn, sy'n mynd yn groes i'r duedd o dwf parhaus trwy gydol 2017.

*"Roedd 2017 yn dda iawn, ond nid yw eleni wedi dechrau'n wych"*

*"Roedd 2017 yn dda iawn, drwy gydol y flwyddyn, ond nid yw 2018 wedi dechrau'n dda"*

2.3 Rheswm allweddol dros hyn yw'r cyfnod oer diweddar – a ddaeth ag eira i lawer o rannau o Gymru ar sawl achlysur. Mae hyn wedi rhwystro pobl rhag trefnu gwyliau yng Nghymru yn ogystal ag achosi i lawer ganslo gwyliau yr oeddynt eisoes wedi'u trefnu.

*"Rydym wedi cael dechrau gwael oherwydd y tywydd. Mae wedi bod yn wlyb ac yn amlwg gwnaeth yr eira achosi llawer o broblemau"*

**Glaw, eirlaw ac eira yn parhau yn ystod penwythnos y Pasg**

2.4 Tywydd garw yw'r rheswm hefyd dros benwythnos y Pasg gwael. Cafodd rhai rhannau o Gymru eirlaw ac eira pellach, tra bod glaw trwm wedi bwrw rhannau eraill.

*"Y Pasg sydd wedi bod y broblem fwyaf. Bu'n fethiant llwyr ac rydym fel arfer yn cael llawer o fusnes o gwmpas yr adeg honno"*

**Ond mae'r rhan fwyaf yn parhau'n hyderus am weddill y flwyddyn**

2.5 Serch hyn, mae'r rhan fwyaf yn hyderus ynglŷn â gweddill 2018. Mae'r rhai hyd yn oed yn nodi bod y rhai a oedd wedi canslo ar ddechrau'r flwyddyn wedi aildrefnu ar gyfer cyfnod hwyrach yn y flwyddyn.

*"Gwnaeth llawer o bobl ganslo oherwydd yr eira, ond mae busnesau'n dweud bod pobl yn aildrefnu ar gyfer cyfnod hwyrach yn y flwyddyn"*

*"Mae darparwyr llety yn cael archebion ymlaen llaw ar gyfer gweddill y flwyddyn. Maen nhw'n hyderus iawn"*

2.6 Er bod y rhan fwyaf yn hyderus, mae un arweinydd yn y diwydiant yn cadw llygad barcud ar berfformiad oherwydd bod eu haelodau wedi adrodd perfformiad gwael hyd yn oed cyn i'r tywydd oer daro.

*"Cysylltodd nifer fawr o aelodau â ni rhwng mis Ionawr a mis Mawrth yn dweud eu bod wedi bod yn fwy tawel na'r arfer – nid oherwydd yr eira yn unig. Rwy'n poeni braidd oherwydd bod hyn ar draws pob sector"*

**Dim newid o ran Brexit**

2.7 Yn ystod camau blaenorol yr arolwg hwn, dywedodd arweinwyr yn y diwydiant wrthym ei bod yn rhy gynnar i wybod beth fyddai goblygiadau Brexit, ac roeddent yn aros i weld beth fyddai'n digwydd. Mae'n bosibl y bydd pobl yn aros am gryn amser oherwydd y gall y 'cyfnod o drawsnewid' bara hyd at 31 Rhagfyr 2020.

*"Cawsom gyfarfod yr wythnos hon ac ni thrafodwyd Brexit hyd yn oed. Mae'n parhau i fod yn y cefndir"*

2.8 Dywedodd rhai bod yr unig effaith hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol oherwydd y gostyngiad yng ngwerth y bunt yn syth ar ôl y refferendwm (er bod y bunt wedi adennill ei gwerth rywfaint ers hynny).

*"Os unrhyw beth, rwy'n credu ei fod [gostyngiad yng ngwerth y bunt] wedi gwneud pobl yn fwy tebygol o ymweld. Wrth edrych tua'r dyfodol, pwy a ŵyr beth fydd yn digwydd, ond nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yn isel eu hysbryd amdano"*

2.9 O ganlyniad, mae arweinwyr yn y diwydiant yn dweud nad yw busnesau'n gorfod gwneud unrhyw newidiadau eto.

"Rydym yn ymlwybro yn ein blaenau. Nid oes unrhyw beth yr ydym yn ei wneud yn arbennig, ond yn yr un modd, nid oes dim nad ydym yn ei wneud yn arbennig. Mae fwy neu lai yn fusnes fel arfer"

*"Gadewch i ni beidio â phoeni am Brexit. Gadewch i ni boeni am broblemau mwy dybryd"*

**Cael busnesau ar-lein**

2.10 Gallai un mater dybryd o'r fath gynnwys cael mwy o fusnesau ar-lein. Mae rhai arweinwyr yn y diwydiant yn poeni am y rhai nad ydynt yn cynyddu eu presenoldeb ar-lein.

*"Mae pobl yn chwilio am wybodaeth drwy amrywiaeth o sianeli heddiw, fel y cyfryngau cymdeithasol, ac rwy'n poeni y bydd rhai busnesau'n dioddef os nad ydynt yn flaengar"*

*"Y sawl sy'n gwneud yn dda yw'r rhai sy'n defnyddio booking.com ac Airbnb"*

# 3. CEFNDIR A METHODOLEG

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

3.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.

3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â Phasg 2018, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer gweddill y flwyddyn.

### Sut y cynhelir yr Arolwg?

3.3 Mae'r arolwg hwn ar gael i'w lenwi ar-lein fel dewis arall yn lle ffonio, sef yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.

3.4 Rydym wedi cynnal 806 o gyfweliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddosbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi rhoi 88 ymateb ychwanegol. Mae'r sampl gyfan o 894 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%.

3.5 Mae'r sampl o 894 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 116 | 48 | 68 | 58 | **290** |
| Llety hunanarlwyo | 101 | 66 | 88 | 36 | **291** |
| Meysydd carafanau/pebyll | 44 | 17 | 21 | 6 | **88** |
| Hostelau | 9 | 10 | 9 | 8 | **36** |
| Atyniadau | 30 | 13 | 22 | 26 | **91** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 11 | 18 | 8 | 12 | **49** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 19 | 9 | 16 | 5 | **49** |
| **Cyfanswm** | **330** | **181** | **232** | **151** | **894** |

3.6 Mae oddeutu dwy ran o dair (64%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 36% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r


samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

3.7 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Ebrill. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

| Cam | Enw'r cam | Cyfnod amser |
|---|---|---|
| Cam 1, 2016 | Y Pasg | 26 Mawrth i 10 Ebrill |
| Cam 2, 2016 | Hanner tymor mis Mai | 28 Mai i 5 Mehefin |
| Cam 3, 2016 | Haf | Mehefin i Awst |
| Cam 4, 2016 | Hydref | Medi i ddechrau Tachwedd |
| Cam 1, 2017 | Y Pasg | 8 Ebrill i 23 Ebrill |
| Cam 2, 2017 | Hanner tymor mis Mai/Mehefin | 27 Mai i 4 Mehefin |
| Cam 3, 2017 | Haf | Mehefin i Awst |
| Cam 4, 2017 | Hydref | Medi i ddechrau mis Tachwedd |
| Cam 1, 2018 | Y Pasg | 30 Mawrth i 15 Ebrill |

# 4. PERFFORMIAD DROS Y PASG

## PERFFORMIAD FESUL SECTOR




### Tywydd gwael yn cael effaith ar berfformiad

4.1 Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi cael Pasg siomedig, yn bennaf oherwydd y tywydd gwael. Mae rhai (18%) busnesau wedi llwyddo i gynyddu eu lefelau o ymwelwyr, ond mae dau o bob pump (40%) wedi lleihau.

*"Gwnaethom golli gwerth tua mil o bunnau oherwydd pobl yn canslo o ganlyniad i'r tywydd"*
Maes carafanau, Canolbarth

### Cysgodi dan do rhag y glaw

4.2 Atyniadau a darparwyr gweithgareddau sydd wedi perfformio orau ym mhob sector. Rheswm allweddol dros hyn yw bod gan lawer o atyniadau bethau i'w cynnig dan do – sydd felly'n rhoi rhywle i bobl fynd yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb.

*"Tywydd gwlyb iawn, sy'n dda i'n busnes oherwydd mae'r cyfan dan do"*
Atyniad, Gogledd

**Cyfnod anodd i lety â gwasanaeth**

4.3 Mae un o bob chwech (17%) o weithredwyr llety â gwasanaeth wedi cynyddu eu lefelau o ymwelwyr yn ystod y Pasg hwn, ond mae hanner (51%) wedi profi gostyngiad.

*"Rydym ni'n denu llawer o gerddwyr. Mae'r tywydd wedi bod mor wael – prin yw'r gwesteion sydd wedi dod atom"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

**Pwysau ychwanegol ar y sector hunanarlwyo**

4.4 Ar gyfartaledd, mae'r sector hunanarlwyo wedi profi lleihad dros y Pasg. Yn ogystal â'r tywydd yn cael effaith ar y sector gyfan, yn sydyn, mae Airbnb wedi rhoi llawer o bwysau ar rai gweithredwyr.

*"Yn y gorffennol dim ond dau neu dri o ddarparwyr llety oedd yn yr ardal. Bellach, oherwydd cyflwyno Airbnb - nid ydynt yn gorfod cydymffurfio â'r un rheoliadau - mae'n debyg bod cymaint mwy o ddewis i bobl"*
Llety hunanarlwyo, De-ddwyrain


*"Yn ein hardal ni, mae Airbnb yn annog cystadleuaeth, ond nid yw'n cael ei raddio. Mae'n bryder – beth am reoliadau tân? Rydym wedi ein sefydlu ers dros 18 mlynedd, ac wedi ein graddio. Mae'n teimlo fel petai'r cyflenwad yn fwy na'r galw"*
Llety hunanarlwyo, De-ddwyrain

**Tywydd anffodus i wersylla**

4.5 Nid yw'n syndod bod y sector carafanau a gwersylla bob amser yn debygol o fod yn un o'r sectorau a effeithir yn gryf arno gan y tywydd gwael. Mae tua hanner (47%) yn dweud eu bod wedi profi gostyngiad dros y Pasg.

*"Byddem wedi gweld twf. Roedd gennym fwy o archebion ond roedd y tywydd gwlyb yn ein rhwystro ac roedd yn rhaid i ni ganslo"*
Maes carafanau, De-ddwyrain

## TUEDD O RAN PERFFORMIAD




**Gobeithio mai ergyd dros dro yn unig yw hyn ar lefelau ymwelwyr**

4.6 Roedd y diwydiant twristiaeth yn dangos arwyddion o dwf cyson o flwyddyn i flwyddyn tan y Pasg hwn. Mae sylwadau penagored yn dangos nad y Pasg yn unig sydd wedi bod yn gyfnod anodd – ond yn hytrach y flwyddyn gyfan hyd yn hyn oherwydd y tywydd garw.


"Dyma'r dechrau gwaethaf i'r flwyddyn dros y deng mlynedd o ran busnes. Mae busnes fel arfer wedi gwella erbyn mis Mawrth"
Caffi, Gogledd

"Mae wedi bod yn ddechrau ofnadwy i'r flwyddyn. Mae mis Ionawr i fis Mawrth wedi bod llawer yn is na'r llynedd"
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

4.7 Mae disgwyliadau wrth symud ymlaen (a drafodir yn Adran 9 isod) yn awgrymu mai'r gobaith yw mai ergyd dros dro yn unig yw'r cyfnod anodd hwn – gyda thuedd o dwf yn yr hirdymor.

Yn aml, mae gweithredwyr yn gweld llai o ymwelwyr os yw'r Pasg yn gynnar. Nid oedd y perfformiad mor dda dros y Pasg cynnar yn ystod 2018 (1 Ebrill) a 2016 (27 Mawrth) â'r Pasg hwyr yn ystod 2017 (9 Ebrill).

## PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH





### Cyfnod heriol i bob rhanbarth yng Nghymru

4.8 Mae gweithredwyr ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru wedi profi gostyngiad o ran lefelau ymwelwyr. Yn Ne-ddwyrain Cymru gwelwyd digwyddiadau yn gwneud yn iawn am rywfaint o effaith y tywydd garw - yr ornest focsio gydag Anthony Joshua am deitl y byd, a gynhaliwyd ddydd Sadwrn y Pasg oedd y digwyddiad mwyaf nodedig.

*"Fe ddenodd yr ornest focsio gydag Anthony Joshua fwy o ymwelwyr i ni'r Pasg hwn"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

*"Roeddem yn llawn dop oherwydd y bocsio"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

## 5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR




**Gall marchnata eich hun helpu i oresgyn cyfnodau heriol**

5.1 Mae rhai gweithredwyr wedi marchnata eu busnesau mor gryf fel nad oedd y tywydd gwael hyd yn oed yn gallu eu hatal rhag cynyddu eu niferoedd o ran ymwelwyr.

*"Rydym wedi ennill ychydig o wobrau ac rydym yn hyrwyddo ein hunain ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Mae'r busnes yn dal i dyfu"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Roeddem yn brysur iawn Ddydd Gwener y Groglith oherwydd gwnaethom gynnal helfa wyau i blant"*
Atyniad, De-ddwyrain

*"Rydym yn weithgar iawn gyda marchnata"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

**Cwsmeriaid dychwel**

5.2 Mae cwsmeriaid dychwel yn bwysig iawn yn y diwydiant twristiaeth, a gallant ddod â sefydlogrwydd yn ystod y cyfnodau mwy anodd.

*“Mae gennyf gwsmeriaid ffyddlon. Mae un teulu wedi bod yn dod bob Pasg am 40 mlynedd ers iddynt fod yn blant, a bellach maent yn oedolion, maen nhw'n dod gyda'u teuluoedd eu hunain"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

**'Tywydd gwell' – os yw eich atyniad dan do**


5.3 Mae'r rhan fwyaf o'r atebion sydd wedi'u trefnu fel 'tywydd gwell' yn golygu tywyll gwell o safbwynt y gweithredwr o ran rhedeg atyniad dan do, neu fusnes sy'n elwa ar y glaw – neu nad yw'r glaw yn effeithio arno. Gall ffawd gwahanol fathau o atyniadau amrywio'n fawr pan fo'r tywydd yn eithafol.

*"Mae pob taith o dan y ddaear, felly mae mwy o bobl yn dod yn ystod tywydd gwlyb"*
Atyniad, Gogledd

"Y llynedd, prin oedd unrhyw ddŵr yn yr afon felly gwnaeth pobl ganslo eu harchebion"
Hostel, Gogledd

*"Tywydd gwlyb iawn, sy'n dda i'r busnes gan ei fod dan do yn unig"*
Atyniad, Gogledd

## 6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR




### Glaw, oerfel ac eira hyd yn oed

6.1 Mae'r tywydd ledled Cymru dros y Pasg wedi bod yn oer am y cyfnod hwn o'r flwyddyn – gwlyb, gydag eira mewn rhai mannau.

*"Rwy'n credu bod y tywydd gwael wedi cael effaith arnom. Roedd yn oer, yn ddiflas ac roedd y rhagolygon yn addo eira.*
Llety hunanarlwyo, Gogledd

### Difrod i eiddo

6.2 Mae'r tywydd wedi effeithio ar fusnesau mewn ffyrdd gwahanol. Oni bai am brinder cyffredinol o ran twristiaid oedd yn fodlon teithio, gwnaeth rhai busnesau ddioddef yn anffodus o ddifrod i'w heiddo cyn y Pasg.

*"Cawsom lifogydd felly nid oedd modd i ni osod yr ystafelloedd Roedd angen trwsio'r difrod cyn i ni allu hysbysebu unwaith eto"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Roedd pibell wedi torri gennym, ac roedd yn rhaid i ni ailaddurno. Gwnaethom golli tair archeb"*
Llety hunanarlwyo, Canolbarth

**Rhagolygon y tywydd yn gwneud busnes hyd yn oed yn waeth nag y dylai fod wedi bod**

6.3 Mae rhai gweithredwyr, yn enwedig yng ngogledd Cymru, yn dweud bod y negeseuon eithafol ynglŷn â'r tywydd mewn rhai mannau o'r cyfryngau wedi troi pobl yn erbyn dod, pan nad oedd y sefyllfa gynddrwg mewn gwirionedd.

*"Gwnaeth y newyddion gwael am y tywydd gael effaith arnom ... roedd pobl yn canslo wyth diwrnod cyn y Pasg oherwydd roedd y newyddion yn dweud wrth bobl am beidio â theithio ... roedd dydd Sadwrn a Sul y Pasg yn iawn, ond roedd hi'n rhy hwyr"*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*"Roedd y rhagolygon lawer yn waeth na'r tywydd go iawn, felly gwnaeth llawer o bobl ganslo'n ddiangen"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd


*"Roedd y cyfryngau'n dweud wrth bobl am aros y tu fewn"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

**Pasg cynnar**

6.4 Pan fo'r Pasg yn gynnar, mae'n arferol i rai gweithredwyr yn y diwydiant twristiaeth nodi hwn fel rheswm dros leihad o ran busnes.Mae hyn yn gysylltiedig â'r tywydd.

*"Mae ein busnes yn dibynnu cymaint ar y tywydd, pan fo'r Pasg mor gynnar ag yr oedd eleni, mae'n cael effaith enfawr"*
Maes carafanau, Canolbarth

## 7. PROFFIDIOLDEB




### Nifer o ffactorau yn cyfrannu at gynnydd mewn proffidioldeb

7.1 Ar y cyfan, mae tua un o bob pump (19%) o fusnesau wedi profi cynnydd mewn proffidioldeb hyd yn hyn eleni, ond mae tua dau o bob pump (42%) wedi profi gostyngiad.

7.2 Mae'n ymddangos mai dyma'r ffactorau allweddol sy'n cael effaith ar broffidioldeb:

- Llai o ymwelwyr oherwydd y tywydd gwael
- Costau uwch ar draws nifer o feysydd
- Cystadleuaeth gan Airbnb
- Aberthu maint yr elw er mwyn cael mwy o ymwelwyr drwy gofrestru gydag asiantaethau teithio ar-lein

### Costau cynyddol

7.3 Mae'r gost o weithredu busnes i dwristiaid yn cynyddu mewn sawl ffordd, ac mae hyn yn rhoi straen ar faint yr elw oni bai bod y gweithredwr yn teimlo ei fod yn gallu codi prisiau yn unol â hynny heb golli ymwelwyr.

> *"Rydym yn gwneud llai o elw oherwydd costau cynyddol megis trethi, y gyflogres, cyfleustodau, bwyd a diod"*
> Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

**Cystadleuaeth gan Airbnb**

7.4 Mae rhai gweithredwyr yn dweud yn y sylwadau penagored eu bod yn cael trafferth cystadlu ag Airbnb – sy'n gallu cynnig prisiau llai heb fynd i gostau gweithredu tebyg.

*"Rydym ni'n cael llai o ymholiadau oherwydd bod mwy a mwy o eiddo Airbnb yn codi na gwestai gwely a brecwast traddodiadol. Nid oes ganddynt gostau rheoleiddiol ac felly gallant godi prisiau is na gwestai gwely a brecwast traddodiadol"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

*"Mae busnes yn wael iawn. Mae llawer gormod o eiddo Airbnb ar gael"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

**Elw yn erbyn cyfanswm yr ymwelwyr**

7.5 Mae gweithredwyr llety â gwasanaeth yn parhau i wynebu'r dilema rhwng dewis cofrestru gydag asiantaeth teithio ar-lein megis booking.com, ac felly aberthu maint yr elw er mwyn cael mwy o ymwelwyr, neu wneud yr un faint o enw ond cael amser anoddach yn cystadlu.


*"Mae booking.com yn cymryd llawer o gomisiwn, felly nid ydym ni'n gwneud cymaint"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Nid wyf yn defnyddio gwefannau fel booking.com" Dim ond fy ngwefan fy hun rwyf yn ei defnyddio"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

7.6 Mae gan weithredwyr llety hunanarlwyo benderfyniad tebyg i'w wneud rhwng parhau'n annibynnol neu gofrestru gydag asiantaeth.

*"Gwnaethom gofrestru gydag asiantaeth newydd er mwyn cael gwared ar rywfaint o'r straen oherwydd mae pobl bellach yn gwneud cryn ddefnydd o'r rhyngrwyd, ac nid oes gennyf yr amser i fynd ar y cyfrifiadur i drefnu archebion. Mae'r asiantaeth yn cymryd llawer o gomisiwn sy'n golygu bod yn rhaid i ni weithio'n fwy caled i wneud elw"*
Llety hunanarlwyo, De-orllewin


## TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB




**Newid o ran proffidioldeb yn unol â'r lleihad yn lefel yr ymwelwyr**

7.7 Roedd proffidioldeb yn y diwydiant wedi bod yn edrych yn iach nes y cyfnod diwedd araf hwn. Fel gyda lefelau'r ymwelwyr, rhaid aros i weld p'un ai ergyd dros dro yw hyn o fewn y duedd hirdymor o gynyddu elw.

## 8. EFFAITH BREXIT




**Prin yw effaith Brexit ar lefelau ymwelwyr hyd yn hyn**

8.1 Ers pleidlais Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd, prin yw'r effaith y mae gweithredwyr twristiaeth wedi sylwi arni o ran nifer eu hymwelwyr – gyda 61% yn dweud nad ydynt wedi gweld unrhyw effaith, a chwarter (24%) yn ansicr o ran unrhyw effaith.

8.2 Mae'r rhannau sydd wedi gweld effaith, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, yn debyg iawn. Yn gyffredinol, mae 7% wedi gweld effaith gadarnhaol, gydag 8% yn nodi effaith negyddol ar eu lefelau ymwelwyr.

**Canlyniadau cymysg o ran yr effaith ar staffio**

8.3 Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn dweud nad yw Brexit wedi cael unrhyw effaith ar eu lefelau staffio, yn bennaf oherwydd eu bod yn rhedeg y busnes gyda'u teulu, ffrindiau neu gyda nifer fach iawn o staff – os oes ganddynt unrhyw staff o gwbl.

8.4 Fodd bynnag, i'r rheiny sydd yn cyflogi niferoedd mwy, mae llawer ohonynt eisoes yn cael trafferth o ran recriwtio neu gadw staff nad ydynt yn Brydeinig. Er nad yw Prydain wedi gadael yr UE eto, mae'r posibilrwydd o'r newid wedi gwneud pethau'n anoddach i rai o'u staff a darpar staff.

*"Gwnaeth un fenyw o Ewrop adael oherwydd nad oedd hi'n teimlo'n gyfforddus rhagor – fe adawodd am ei bod hi'n teimlo nad oedd ei hangen"*
Hostel, De-ddwyrain

*"Mae rhai pobl wedi mynd yn ôl i'w mamwlad, felly mae llai o bobl i'w recriwtio yn yr ardal"*
Caffi, Gogledd

*"Mae wedi cael effaith ar staff. Roedd gennym lawer o staff o Ewrop, o Sbaen a'r Eidal, ond nid ydynt yma bellach"*
Bwyty, De-ddwyrain

*"Rwy'n colli fy staff o wlad Pwyl – maen nhw'n dychwelyd adref"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

*"Rydym ni'n cyflogi llawer o bobl o ddwyrain Ewrop ac maen nhw'n anoddach eu cyflogi yn awr"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Rwy'n ei chael hi'n anoddach i gael staff – anoddach o lawer"*
Hostel, De-orllewin

*"Nid oes gan bobl Saesneg y sgiliau yn y maes lletygarwch" Pobl o Ewrop yw'r asgwrn cefn o ran arlwyo a blaen y tŷ. Mae'n anodd cael staff cymwys o ansawdd"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae effaith Brexit ar staffio wedi bod yn drychineb. Mae gostyngiad yng ngwerth y bunt ochr yn ochr â'r ansicrwydd ynghylch cael gweithlu â sgiliau sylfaenol wedi arwain at lawer o weithwyr yn dychwelyd i Ewrop. Nid oes angen gweithlu arbenigol ym Mhrydain. Mae'r gwelliannau i'r diwydiant gwasanaeth wedi bod o ganlyniad i weithlu arbennig o Ewrop"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

8.5 Mae eraill yn dweud nad yw Brexit wedi cael effaith ar eu lefelau staffio hyd yma, a'u bod yn parhau i gyflogi staff o Ewrop.

*"Rydym ni'n cyflogi rhwng 10 a 12 o staff o dramor bob blwyddyn, ac nid yw byth yn broblem. Mae gennym fwy yn dod a rhai sy'n dychwelyd"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Ar y dechrau roeddem yn gofidio. Mae gennym staff o Lithwania, yr Eidal a Sbaen. Ond hyd yn hyn ni fu unrhyw effaith"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

**Pryderon ynghylch lefelau staffio'r dyfodol**

8.6 Mae eraill yn trafod eu pryderon ar gyfer y dyfodol ac yn ansicr ynglŷn â sut y bydd penderfyniad Brexit yn cael effaith ar eu staff yn yr hirdymor.

*"Dim eto ond gallai effeithio arnom cyn hir, yn dibynnu ar ba mor anodd y bydd i bobl weithio yn y DU ar ôl Brexit"*
Bwyty, De-ddwyrain

*"Dim eto ond mae pob un o'n staff yn dod o Hwngari felly gall problemau godi yn y dyfodol"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

8.7 Mae gweithredwyr sy'n dibynnu ar gyllid o Ewrop yn dweud os na fydd yr arian ychwanegol yn dod o rywle arall yn y dyfodol, y byddant yn ei chael hi'n anodd cyflogi'r lefelau staffio y maen nhw wedi dod yn gyfarwydd â hwy.

*"Bydd colli'r cyllid o Ewrop yn cael effaith oherwydd yr oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer staff"*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

*"Gallai gael effaith ar staffio yn y dyfodol os yw'r cyllid yn lleihau oherwydd Brexit"*
Atyniad, De-ddwyrain

**Mae'r dyfodol yn ansicr**

8.8 Yn ogystal â staff, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynglŷn ag effaith Brexit ar feysydd busnes eraill. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn dweud nad ydynt yn gwybod sut y bydd yn effeithio ar eu busnesau.

*"Nid oes modd i chi ragweld y dyfodol. Nid oes syniad gennych beth fydd yn digwydd"*
Llety hunanarlwyo, Canolbarth

"Dwi ddim yn gwybod. Nid oes unrhyw un yn siŵr beth fydd yn digwydd"
Atyniad, De-ddwyrain

*"Rwy'n dal y ddysgl yn wastad – rwy'n poeni y gallai effeithio arnom ond dwi ddim yn gwybod eto"*
Atyniad, Canolbarth

**Costau cynyddol nwyddau**

8.9 Mae rhai gweithredwyr yn rhagweld y bydd costau nwyddau'n cynyddu ar ôl i Brydain adael yr UE. Bydd hyn yn cael effaith ar faint eu helw, neu'n eu gorfodi i godi costau'r hyn y maen nhw'n ei gynnig i gwsmeriaid.

*"Gall Brexit gael effaith ar ein prisiau. Mae rhai o'n cyflenwyr a ffynonellau'n dod o dramor, ac mae cynnydd wedi bod yn barod o ran y costau cludo"*
Atyniad, De-ddwyrain

*"Mae'n cael effaith fach yn barod, er enghraifft ar gostau bwyd a diod. Rydym wedi gorfod newid y rhestr o winoedd oherwydd bod gwin o Ffrainc yn rhy ddrud i'w ddefnyddio fel ein gwin tŷ"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

*"Rydym yn gwerthu nwyddau sy'n dod o dramor, felly mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni dalu llawer mwy ar fewnforion"*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

**Punt o werth is yn gleddyf daufiniog**

8.10 Mae'r amrywiadau ariannol rhwng yr ewro a'r bunt sy'n gysylltiedig â Brexit yn dod â gobaith a phryderon.

8.11 Byddai punt gwerth is yn gwneud Cymru'n fwy deniadol i'r rheiny yn yr UE a thu hwnt – gan fod gwyliau neu seibiant byr yn y wlad yn fwy cost-effeithiol nag y mae wedi bod. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn ymwelwyr tramor.

*"Mae'n effeithio ar lefel y bunt, a fydd yn achosi i fwy o ymwelwyr o Ewrop aros yn y DU"*
Llety hunanarlwyo, De-orllewin

*“Mae'n dibynnu ar gyfraddau cyfnewid. Mae punt gwerth is yn denu ymwelwyr o Ewrop na fyddent o bosibl wedi teithio i'r DU fel arfer"*
Maes carafanau, Gogledd

*"Mae'r gyfradd cyfnewid o'u plaid nhw, felly dylai fod mwy o ymwelwyr tramor, ond nid ydym wedi gweld unrhyw fusnes ychwanegol"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Rwy'n meddwl y dylai gael effaith gadarnhaol gan fod cyfradd gyfnewid y bunt yn well ar gyfer ymwelwyr o dramor"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

8.12 Gallai hefyd olygu y bydd yn mynd yn rhy ddrud i Brydeinwyr i fynd ar wyliau dramor, a fyddai wedyn yn dewis mynd ar wyliau llai drud yn y DU.

*"Ni allaf weld y bydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth, ond pe bai, mae'n debyg y byddai'n helpu busnes gan y byddai pobl yn dewis aros yn y DU am wyliau"*
Llety hunanarlwyo, De-orllewin

*"Rwy'n credu y bydd yn gadarnhaol – mwy o wyliau gartref gan y bydd Ewrop yn dod yn fwy drud, rwy’n tybio"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

8.13 Fodd bynnag, gyda'r posibilrwydd o lai o incwm gwario, gallai treulio amser yng Nghymru hyd yn oed fel ymwelydd fod yn rhy ddrud – gyda phobl yn rhagweld y bydd seibiannau llai neu lai ohonynt yn cael effaith ar y diwydiant twristiaeth.

*"Mae'n bosibl y bydd Brexit yn cael effaith negyddol. Mae'n bosibl y bydd gan Brydeinwyr lai o arian ac felly maen nhw'n llai tebygol o fynd ar wyliau"*
Llety hunanarlwyo, Canolbarth

*"Dwi ddim yn gwybod, ond mae arian yn newid ac mae popeth yn mynd yn fwy drud, felly mae'n dibynnu a yw pobl yn dymuno gwario eu harian ar wyliau"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Rwy'n credu bod gan Brydeinwyr lai o arian i'w wario, ac felly nid ydynt yn mynd i ffwrdd dros y penwythnosau neu'n mynd i gael pryd mewn bwytai mor aml ag yr oeddent"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

*"Rwy'n credu y bydd yn dibynnu ar yr incwm gwario a'r economi ar ôl Brexit. "Mae'n debyg mai gwyliau fyddai'r peth cyntaf i chi groesi oddi ar y rhestr pe bai'n rhaid i chi wneud toriadau"*
Maes carafanau, Gogledd

**Pryderon ynghylch problemau fisâu posibl**


8.14 Mae rhai gweithredwyr yn poeni y gallai fod yn anoddach dod i mewn i Gymru, pe bai angen fisa ar bobl o Ewrop i ddod i Brydain. Maen nhw'n credu y gallai hyn wneud i ddarpar ymwelwyr ailystyried, a fyddai wedyn yn dewis mynd ar wyliau 'haws' mewn lleoliad arall.

*"Efallai, os daw'n fwy anodd i ddod i mewn i'r wlad - rydym yn cael llawer o bobl sy'n dod o Wlad Belg, Ffrainc a'r Iseldiroedd - gallant ddewis mynd i rywle arall oherwydd fisâu a'r cymhlethdodau o ran cael fisa"*
Hostel, De-orllewin

*"Mae'n dibynnu ar y rheolau – os oes angen fisa ar bobl, gallai gael effaith ar ymwelwyr o dramor"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

# 9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER 2018

## DISGWYLIADAU FESUL SECTOR




Maint y sampl: 756

**Disgwyliadau cadarnhaol – yn enwedig ymhlith gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety**

9.1 Er gwaethaf y dechrau anodd i'r flwyddyn, mae'r disgwyliadau ar gyfer gweddill 2018 yn eithaf cadarnhaol, yn enwedig ymhlith y sectorau nad ydynt yn cynnig llety.

*"Rydym wedi cael llawer o ymholiadau felly rydym ni'n hyderus iawn"*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

*"Mae'n gwella bob blwyddyn. "Rydym wedi buddsoddi mwy mewn gweithgareddau, meysydd chwarae, wedi ehangu'r maes parcio a ... marchnata da"*
Atyniad, De-orllewin

9.2 Mae rhai gweithredwyr yn anghofio am y dechrau gwael i'r flwyddyn, ac maent yn edrych ymlaen at fusnes gwell yn ystod misoedd cynhesach yr haf.

"Mae wedi bod yn ddechrau anodd i'r flwyddyn gyda'r eira, ond rydym yn edrych yn iawn am weddill y flwyddyn"
Hostel, De-orllewin

**Disgwyliadau yn seiliedig ar archebion ymlaen llaw**

9.3 Mae llawer o weithredwyr sydd â disgwyliadau uchel ynglŷn â gweddill y flwyddyn yn siarad yn gadarnhaol oherwydd eu bod wedi cael llawer o archebion yn barod.

*"Mae llawer o bobl wedi archebu ar gyfer y dyfodol"*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*“Rydym yn llawn o ran archebion am weddill y flwyddyn oni bai am un wythnos ym mis Awst"*
Llety hunanarlwyo, De-orllewin

**Rhai yn dibynnu ar archebion munud olaf**

9.4 Lle mae gan rai gweithredwyr nifer o archebion ymlaen llaw i gefnogi eu disgwyliadau, mae eraill yn dibynnu ar bobl yn archebu munud olaf, ac mae rhai'n dweud mai'r duedd hirdymor yn ystod eu hamser yn y busnes yw bod pobl yn archebu munud olaf.

*“Dwi ddim yn poeni. Rwy'n dibynnu ar archebion munud olaf"*
Llety hunanarlwyo, Canolbarth

*"Pan wnaethom ddechrau 14 mlynedd yn ôl, roedd pawb yn archebu ymlaen llaw. Rwy'n credu bod pobl yn fwy pwyllog o ran archebu ymlaen llaw heddiw oherwydd problemau arian. Mae gwefannau hefyd yn cynnig bargeinion munud olaf rhad"*
Llety hunanarlwyo, Gogledd

**Disgwyliadau uwch yn ne-ddwyrain Cymru**


9.5 Mae tua hanner (48%) o fusnesau yn ne-ddwyrain Cymru yn disgwyl lefelau uwch na'r llynedd. Mae hyn yn cymharu â thraean (33%) o fusnesau ar draws y rhanbarthau eraill yng Nghymru.

9.6 Mae digwyddiadau yng Nghaerdydd yn cyfrannu at ddisgwyliadau cadarnhaol rhai gweithredwyr.

*"Rwy'n disgwyl i ni fod llawer yn brysurach gyda digwyddiadau megis cyngherddau Ed Sheeran a Beyoncé, a'r gemau rygbi rhyngwladol yn yr Hydref"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

*“Mae llawer o ddigwyddiadau yn ystod mis Mehefin a mis Awst"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

## HYDER FESUL SECTOR





### Adeg o'r flwyddyn i edrych ymlaen ati

9.7 Mae'r rhan fwyaf (78%) o weithredwyr yn hyderus ynglŷn â gweddill y flwyddyn. Fel arfer yn ystod y cyfnod hwn o'r flwyddyn, mae gweithredwyr ym maes twristiaeth yn edrych ymlaen at y misoedd mwy prysur dros yr haf, yn enwedig os nad yw'r flwyddyn wedi dechrau'n dda.

*“Dim byd hyd yn hyn eleni, ond gobeithio y bydd yn gwella erbyn yr haf"*
Llety hunanarlwyo, De-orllewin

*“Mae'r ffôn yn dechrau canu cyn gynted ag y mae'r haul yn dechrau tywynnu"*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

## TUEDD O RAN HYDER




**Mae'r hyder fel arfer ychydig yn uwch yr adeg hon o'r flwyddyn**

9.8 Er bod yr hyder yn y diwydiant yn eithaf uchel, mae fel arfer ychydig yn uwch yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn. Gallai'r cyfnod siomedig dros y Pasg wedi effeithio ar hyder rhai, ond gallai hyn newid yn gyflym os bydd busnes yn dechrau cynyddu.

*"Nid oedd dechrau'r tymor hwn yn arbennig o dda. Gobeithio y gallwn ddal i fyny"*
Maes carafanau, De-orllewin

Cymru
Wales

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ☐
- Llety hunan arlwyo ☐
- Maes carafannau / pebyll ☐
- Hostel ☐
- Atyniad ☐
- Cynal gweithgaredd ☐
- Bwyty / tafarn / caffi ☐

## Nodwch fod y cwestiynau canlynol yn cyfeirio at eich cwsmeriaid sydd yn <u>dwristiaid</u> yn unig, nid pobl leol.

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do ☐
- Naddo ☐

Q2 O gymharu â'r Pasg y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael y Pasg yma?

- Yn fwy na'r llynedd ☐
- Tua'r un peth ag y llynedd ☐
- Yn llai na'r llynedd ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q3 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr?

***Ticiwch bob un perthnasol***

- Tywydd gwell ☐
- Marchnata eich hun ☐
- Busnes dychwel ☐
- Adferiad economaidd ☐
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com) ☐
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo) ☐
- Argymhellion ☐
- Cynnydd mewn twristiaeth ☐
- Mwy o le / ystafelloedd ☐
- Digwyddiadau yn yr ardal ☐
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell ☐
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU ☐
- Mwy o ymwelwyr tramor ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall ☐

**Nodwch reswm / resymau eraill** ____________

Q4 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr?

***Ticiwch bob un perthnasol***

- Tywydd ☐
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr ☐
- Problemau annisgwyl ☐
- Hinsawdd economaidd ☐
- Cystadleuaeth gref ☐
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ☐
- Llai o ymwelwyr tramor ☐
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall ☐

**Nodwch reswm / resymau eraill** ____________

Q5 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- I fyny ar y llynedd ☐
- Tua'r un peth a llynedd ☐
- I lawr ar y llynedd ☐
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ☐

Q6 *Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar berfformiad eich busnes hyd yma eleni?*

____________

Q7 Wrth edrych ymlaen i weddill y flwyddyn, sut ydych yn disgwyl nifer eich ymwelwyr i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- Yn fwy na eleni ☐
- Tua'r un peth ag eleni ☐
- Yn llai na eleni ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q8 Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi am weddill y flwyddyn?

- Hyderus iawn ☐
- Eithaf hyderus ☐
- Ddim yn hyderus iawn ☐
- Ddim yn hyderus o gwbl ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q9 *Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar eich ddisgwyliadau am weddill y flwyddyn?*

Q10 Hyd yn hyn, faint, os o gwbl, y mae Brexit wedi effeithio ar eich nifer o ymwelwyr?

- Mae wedi bod yn gadarnhaol iawn ☐
- Mae wedi bod yn eithaf gadarnhaol ☐
- Nid yw wedi cael effaith ☐
- Mae wedi bod yn eithaf negyddol ☐
- Mae wedi bod yn negyddol iawn ☐
- Dim yn gwybod ☐

Q11 *Sut, os o gwbl, y mae'r penderfyniad Brexit wedi effeithio ar staffio yn eich busnes?*

Q12 *Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd Brexit yn ei gael ar eich busnes yn y dyfodol?*

Q13 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?

- Do ☐
- Naddo ☐

LA Ym mha ranbarth o Gymru y mae eich busnes wedi'u leoli?

***Os oes gennych fwy nag un safle, dewiswch rhanbarth eich prif safle***

- Gogledd **(Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam)** ☐
- Canolbarth **(Ceredigion, Powys)** ☐
- De-orllewin **(Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe)** ☐
- De Ddwyrain **(Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg)** ☐

Diolch i chi am eich amser wrth roi adborth. Cliciwch ar 'Cyflwynwch' isod.